


## Cytundeb rhwng

yr

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**



**Ombwdsmon  
Ombudsman**  
Cymru • Wales

**a**

**Heddlu Dyfed Powys**



Heddlu Police

**DYFED-POWYS**

# Cytundeb rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Heddlu Dyfed-Powys

## Cyflwyniad

Caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu bod wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiannau gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod hwnnw, neu y gallai fod wedi methu â chydymffurfio â hynny. O dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i bob Cyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned, a phob Awdurdod Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân yng Nghymru gael cod ymddygiad sy'n nodi sut y dylai eu haelodau etholedig ymddwyn. Rhaid i bob aelod gytuno i gadw at y cod hwn.

## 1. Diben

1.1 Mae'r Ombwdsmon a Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod yr angen i gynorthwyo'r broses ymchwilio a sicrhau cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau sefydliad. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer y canlynol:

- 1.1.1 Gellir rhannu gwybodaeth yn gyfrinachol cyn ymchwiliad ffurfiol er mwyn nodi materion sy'n berthnasol i'r heddlu perthnasol a materion ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 1.1.2 Atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i honiadau o drosedd gan yr heddlu ynghyd â thystiolaeth ategol o'r achwynydd.
- 1.1.3 Gellir rhannu gwybodaeth ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pan fydd cwyn am gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys gweithgarwch troseddol honedig neu ymddangosiadol ar ran y darparwr gwasanaeth neu ei staff.
- 1.1.4 Darparu copïau o ddatganiadau a thystiolaeth arall gan yr heddlu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle bo hynny'n briodol, pan fydd aelod wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd, os yw'r euogfarn honno'n destun honiad o gamymddwyn, neu pan wneir penderfyniad i beidio ag erlyn ond bod yr Ombwdsmon wedi derbyn

honiad o dorri'r cod ymddygiad sy'n ymwneud â'r un ffaith.

- 1.1.5 Darparu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle bo hynny'n briodol, unrhyw wybodaeth arall sydd gan yr heddlu mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Dyma ddiben y ddogfen hon:

- 1.1.6 Darparu mecanwaith a phroses i'r Ombwdsmon geisio gwybodaeth a gedwir gan Heddlu Dyfed-Powys, a gwybodaeth gan swyddogion heddlu a all fod yn dystion, sy'n ymwneud â mater sy'n berthnasol i ymchwiliad gan ombwdsmon.
- 1.1.7 Darparu mecanwaith a phroses, a manylu ar unrhyw gyfyngiadau, ar gyfer darparu diweddariadau gan un parti i'r llall.
- 1.1.8 Mae'r ddogfen hon yn nodi egwyddorion cydweithredu a hefyd y broses i'w dilyn.

## 2. Buddion rhannu

- 2.1 Drwy rannu gwybodaeth bersonol o dan y Cytundeb hwn, rhagwelir y bydd y manteision canlynol yn cael eu cyflawni:

- 2.1.1 Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael sy'n ymwneud â honiad o gamymddwyn (bydd gwybodaeth yn cael ei hystyried fesul achos fel y nodir yn Adran 11 y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn);
- 2.1.2 Mae unrhyw honiad o ymddygiad troseddol neu dystiolaeth sy'n awgrymu ymddygiad troseddol mewn cwyn cod ymddygiad yn cael ei gyfeirio at yr heddlu neu asiantaeth briodol arall.

- 2.2 Bydd cydweithredu o fudd yn yr amgylchiadau canlynol:

- 2.2.1 Cwynion a dderbynnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru lle honnir, neu mae'n ymddangos, bod gweithgarwch troseddol wedi digwydd ar ran y darparwr gwasanaeth neu ei staff.
- 2.2.2 Cwynion a dderbynnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn nodi bod aelod o awdurdod lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad sy'n ymwneud ag ymddygiad y gallai'r heddlu fod wedi ymchwilio iddo

## SWYDDOGOL

eisoes neu y dylai'r heddlu ymchwilio iddo oherwydd y gallai'r ymddygiad y cwynir amdano fod yn gyfystyr â gweithgarwch troseddol.

- 2.2.3 Cwynion a dderbynnir gan heddluoedd ynghylch ymddygiad aelodau nad ydynt yn droseddol ond a allai dorri cod ymddygiad awdurdod;
- 2.2.4 Ymchwiliadau gan yr heddlu i drafodion aelod, lle credir y gall fod gweithgaredd troseddol ond lle na chafodd hynny ei ganfod, ond lle mae'r aelod wedi ymddwyn yn anfoesegol;
- 2.2.5 Ymchwiliadau a gynhelir gan yr heddlu i drafodion aelod pan fo gweithgarwch troseddol wedi'i ganfod, ond penderfynir nad yw erlyn er budd y cyhoedd;
- 2.2.6 Cwynion/gwybodaeth, wedi'u cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r heddlu ar yr un pryd, mewn perthynas â gweithgareddau aelod o awdurdod perthnasol.

### 3. Pwerau deddfwriaethol / statudol

- 3.1 Bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu o fewn fframwaith cyfreithiol deddfwriaeth Diogelu Data (gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Hawliau Dynol 1998 ac yn unol â dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin.
- 3.2 Dim ond un o'r seiliau cyfreithlon dros brosesu a geir yn GDPR y DU, a dim ond un o'r amodau ar gyfer prosesu Categoriâu Arbennig o ddata personol neu ddata Euogfarnau Troseddol o dan GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data. Gan nad yw'r rhannu sy'n dod o dan y Cytundeb hwn yn dibynnu ar gydsyniad, bydd angen i sefydliadau partner allu bodloni un o'r seiliau cyfreithlon eraill dros brosesu data personol o dan GDPR y DU, ac un o'r amodau o dan GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data ar gyfer prosesu data categori arbennig neu euogfarn droseddol.
- 3.3 At ddibenion y Cytundeb hwn, bydd y seiliau cyfreithlon canlynol a gynhwysir yn Erthygl 6 o GDPR y DU yn briodol ar gyfer prosesu data personol:
  - 6(1)(c). Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r Rheolydd yn ddarostyngedig iddi;
  - 6(1)(e). Mae'n rhaid prosesu er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y

## SWYDDOGOL

cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd.

### 3.3.1 Mae gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys mewn perthynas â chyflwyno dogfennau:

Mae a.19 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn darparu y caiff yr Ombwdsmon, at ddibenion ymchwiliad, ei gwneud yn ofynnol i berson y mae'r Ombwdsmon yn credu sy'n gallu darparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad wneud hynny.

Mae a.53 yn darparu amod tebyg i A.19 ond mae'n ymwneud yn benodol ag ymchwiliadau mewn perthynas ag ymchwiliadau i gwynion nad ydynt yn dod o dan Ran 3 o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau a gymerwyd gan ddarparwyr cartrefi gofal mewn cysylltiad â darparu llety, nyrsio neu ofal personol mewn cartref gofal yng Nghymru; camau a gymerwyd gan ddarparwyr gofal cartref mewn cysylltiad â darparu gofal cartref yng Nghymru; a chamau a gymerwyd gan ddarparwyr gofal lliniarol annibynnol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru.

### 3.4 At ddiben y cytundeb hwn, bydd yr amod Erthygl 9 canlynol o'r GDPR y DU yn briodol ar gyfer prosesu data categori arbennig:

9(2)(g) mae angen prosesu am resymau budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau gwrthrych y data;

### 3.5 Mae Erthygl 10 GDPR y DU hefyd yn berthnasol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a data troseddau.

### 3.6 Mewn perthynas â 4.4 a 4.5 uchod, amodau perthnasol Atodlen 1, Rhan 2, o'r Ddeddf Diogelu Data yw'r paragraffau canlynol:

6 (1) Mae'r amod hwn yn cael ei fodloni os yw'r prosesu -

(a) yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2),

(b) yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

(2) Y dibenion hynny yw -

- (a) arfer swyddogaeth a roddwyd i berson gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
- (b) arfer un o swyddogaethau'r Goron, un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau'r llywodraeth.

7 Mae'r amod hwn yn cael ei fodloni os yw'r prosesu -

- (a) ar gyfer gweinyddu cyfiawnder, neu
- (b) ar gyfer arfer un o swyddogaethau un o ddau Dŷ'r Senedd.

3.7 Yn unol â gofynion Atodlen 1, Rhan 2, Paragraff 5 y Ddeddf Diogelu Data, dim ond os oes gan y sefydliad ddogfen bolisi briodol yn ei lle, pan fydd y prosesu'n cael ei wneud, y caiff yr amodau uchod eu bodloni.

3.8 Pwerau deddfwriaethol ychwanegol (gweler Atodiad A):

- Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
- Deddf Llywodraeth Leol 2000

#### **4. Manylion y wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu**

4.1 Mae gwybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu at ddibenion y Cytundeb hwn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ac felly gallai gynnwys y canlynol:

- Enwau llawn
- Cyfeiriad a manylion cyswllt eraill
- Pan fo'n berthnasol, gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad unigolion gan gynnwys datganiadau, cofnodion ysgrifenedig a sain, teledu cylch cyfyng a delweddau eraill
- Pan fo'n berthnasol, unrhyw wybodaeth bersonol arall yn y deunydd y cyfeirir ati yn Adran 2 y Cytundeb hwn, ac y mae'r naill barti neu'r llall yn credu ei bod yn angenrheidiol ei rhannu er mwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyflawni'n briodol y swyddogaethau statudol a nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

## 5. Nod y trefniadau hyn

5.1 Gwneud yn siŵr bod cyswllt effeithiol er mwyn sicrhau'r canlynol:

- a) Bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael sy'n ymwneud â honiad o gamymddwyn;
- b) Cyfeirir unrhyw honiad o ymddygiad troseddol neu dystiolaeth sy'n awgrymu ymddygiad troseddol at yr heddlu neu asiantaeth briodol arall os caniateir hynny dan y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n rheoli ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- c) Nid yw ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gwrthdaro'n anfwriadol ag ymchwiliadau'r heddlu;
- d) Bod cyfathrebu amserol rhwng Heddlu Dyfed-Powys ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

5.2 Gweler Adran 11 y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn am amlinelliad manwl o'r broses ar gyfer darparu gwybodaeth i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 6. Cytundeb

6.1 Mae'r ddogfen hon yn ffurfio cytundeb i wneud y canlynol:

- a) Rhannu gwybodaeth yn gyfrinachol cyn ymchwiliad ffurfiol er mwyn nodi materion sydd i'r heddlu a materion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- b) Pan fo'n briodol, darparu copi o ddatganiadau a thystiolaeth arall gan yr heddlu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pan fydd aelod wedi'i gael yn euog o drosedd, os yw'r euogfarn honno'n destun honiad o gamymddwyn, neu pan wneir penderfyniad i beidio ag erlyn ond bod yr Ombwdsmon wedi derbyn honiad o dorri'r cod ymddygiad sy'n ymwneud â'r un ffeithiau.
- c) Darparu unrhyw wybodaeth arall sydd gan yr heddlu mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 7. Telerau'r cytundeb

- a) Bydd pob cais ffurfiol yn ysgrifenedig, er y gall dull rhagarweiniol fod

yn llafar ac yn anffurfiol.

- b) Bydd yr holl gyfathrebu'n digwydd drwy'r pwynt cyswllt enwebedig ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Cyfarwyddwr Gwella.
- c) Bydd unrhyw ymchwiliad troseddol yn cael blaenoriaeth.
- d) Nid yw bodolaeth y ddogfen hon yn atal cytundeb ar drefniadau gwahanol mewn achos penodol.

## **8. Darpariaethau codi tâl**

- 8.1 Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio disgresiwn ac ni chodir tâl am gyfnod cychwynnol o 2 awr dan Ganllawiau Plismona Cenedlaethol ar Godi Tâl Gwasanaethau'r Heddlu (NPCC), os yw'r cais a dderbynnir yn gofyn am ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i gwestiwn/cwestiynau yn unig ac nad oes unrhyw ddogfennau i'w rhannu.
- 8.2 Codir tâl am olygu a chyflenwi dogfennau y gofynnir amdanynt gan Heddlu Dyfed-Powys yn unol â Chanllawiau Plismona Cenedlaethol ar Godi Tâl.
- 8.3 Bydd tâl am unrhyw waith ychwanegol sy'n fwy na 2 awr yn ymwneud â'r un achos yn cael ei godi yn unol â'r Canllawiau Plismona Cenedlaethol ar Godi Tâl.
- 8.4 Gall y trefniadau hyn gael eu hadolygu gan bartïon y cytundeb hwn.

## **9. Diogelwch gwybodaeth**

- 9.1 Bydd pob sefydliad yn gyfrifol am yr wybodaeth y mae'n ei chadw neu'n ei phrosesu o dan y cytundeb hwn a bydd yn gwneud hynny yn unol â'i rwymedigaethau fel rheolydd data o dan GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data.
- 9.2 Bydd y sefydliad sy'n anfon gwybodaeth o dan y cytundeb hwn yn gyfrifol am sicrhau ei bod yn cael ei hanfon mewn modd priodol a diogel lle bo angen. Bydd y sefydliad sy'n derbyn gwybodaeth dan y cytundeb hwn yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw wybodaeth a dderbynnir yn cael ei storio a'i phrosesu mewn modd priodol, ar ôl ei derbyn.



- 9.3 Os yw'r sefydliad sy'n derbyn yn amau bod y deunydd sydd ganddo wedi cael ei ddarparu gan y sefydliad sy'n anfon o dan y cytundeb hwn wedi cael ei golli, neu wedi cael ei ddatgelu'n anfwriadol i drydydd parti, dylai'r sefydliad sy'n ei dderbyn roi gwybod i'r sefydliad sy'n anfon cyn gynted â phosib ac yn unol ag unrhyw amserlenni a nodir o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data.
- 9.4 Mae partïon yn ymrwymo y bydd gwybodaeth a rennir o dan y cytundeb ond yn cael ei defnyddio at y diben penodol y cafodd ei datgelu ar ei gyfer yn unol â'r cytundeb hwn. Ni ddylid ei rannu at unrhyw ddiben arall y tu allan i'r cytundeb hwn. Gellir rhyddhau gwybodaeth i drydydd parti heb gael awdurdod ysgrifenedig penodol y parti a roddodd yr wybodaeth ar yr amod ei bod yn cael ei datgelu'n gyfreithlon yn unol â darpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (gweler Atodiad A). Mewn unrhyw achos arall, ni fydd y derbynnydd yn rhyddhau'r wybodaeth i unrhyw drydydd parti heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol y parti a roddodd yr wybodaeth. Bydd y wybodaeth yn cael ei dinistrio pan nad oes angen y wybodaeth mwyach.

## 10. Cyfrinachedd

- 10.1 Bydd pob parti (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Heddlu Dyfed-Powys) bob amser yn cadw'r holl ddata personol a ddatgelir yn unol â'r cytundeb hwn yn gyfrinachol. Bydd y cymal hwn yn goroesi terfynu neu dynnu'n ôl o'r cytundeb. Mae hyn yn golygu na fydd cyhoeddi data a gyflenwir yn unol â'r cytundeb hwn yn datgelu pwy yw unrhyw unigolyn, ac eithrio fel y nodir yn y cytundeb hwn.

## 11. Y broses ar gyfer darparu gwybodaeth gan Heddlu Dyfed-Powys

- 11.1 Rhaid anfon unrhyw geisiadau am wybodaeth a wneir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Adran Diogelu Data Heddlu Dyfed-Powys: [dataprotection@dyfed-powys.police.uk](mailto:dataprotection@dyfed-powys.police.uk)
- 11.2 Ar ôl derbyn cais am wybodaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, dilynir y broses ganlynol:
- 11.2.1 Bydd staff yr Adran Diogelu Data yn adolygu pob cais fesul achos ac yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth berthnasol (fel yr amlinellir yn Adran 4 ac Atodiad A).
- 11.2.2 Bydd Staff Diogelu Data yn ystyried datgelu gwybodaeth, gan ystyried holl amgylchiadau'r mater.


- 11.2.3 Bydd unrhyw geisiadau pellach am y wybodaeth yn cael eu hystyried gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth cyn eu datgelu ymhellach.

Rhaid trosglwyddo'r holl wybodaeth gan ddefnyddio dulliau diogel, hynny yw e-bost diogel, Varonis ac ati.

## 12. Adolygu

- 12.1 Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu gan Heddlu Dyfed-Powys ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bob tair blynedd neu'n gynt os bydd amgylchiadau'n gwneud hyn yn briodol.
- 12.2 At ddibenion adolygu'r ddogfen hon, dyma'r manylion cyswllt priodol:
- 12.2.1 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:  
[policycontrol@ombudsman.wales](mailto:policycontrol@ombudsman.wales)
- 12.2.2 Heddlu Dyfed Powys [dataprotection@dyfed-powys.police.uk](mailto:dataprotection@dyfed-powys.police.uk)

# Atodiad A - Deddfwriaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



**Ombwdsmon  
Ombudsman**  
Cymru · Wales

## Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019

### Cwynion am gamweinyddu neu fethiannau gwasanaeth yn erbyn cyrff cyhoeddus

Caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu bod wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiannau gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae gan yr Ombwdsmon bwerau eang i fynnu bod unrhyw berson y mae'n credu sy'n gallu darparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau neu dystiolaeth arall at ddibenion ei ymchwiliadau o dan [adran 19](#) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth a ddarperir i'r Ombwdsmon mewn ymateb i gais o'r fath am dystiolaeth yn ddarostyngedig i brotocolau rhannu gwybodaeth. Dylid darparu gwybodaeth yn llawn heb olygiad (ystyrir gwybodaeth fesul achos fel y nodir yn adran 11 y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn) a heb fod angen i'r heddlu perthnasol gael caniatâd gan unrhyw un o'r partïon a allai fod yn gysylltiedig ag unrhyw fater neu a enwir mewn unrhyw ddogfen.

Cynhelir pob ymchwiliad o'r fath gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn breifat ac ni chaniateir i'r wybodaeth a geir yn ystod unrhyw ymchwiliad gael ei datgelu gan yr Ombwdsmon ac eithrio at un o'r dibenion penodol canlynol a amlinellir yn adran 69 Deddf:

- (a) at ddibenion penderfynu a ddylid dechrau ymchwiliad;
- (b) at ddibenion ymchwiliad;
- (c) at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- (d) at ddibenion datrys cwyn o dan 6 neu 46 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- (e) at ddibenion datganiad neu adroddiad a wnaed mewn perthynas â chwyn

Statws: Fersiwn v2

Dyddiad Cyhoeddi: 21/03/2024

Dyddiad Adolygu: 21/03/2027

## SWYDDOGOL

neu ymchwiliad;

- (f) at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn adran 65, 66, 67 neu 68 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- (g) at ddibenion trafodion—
  - (i) trosedd o dan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 yr honnir iddo gael ei chyflawni gan yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau;
  - (ii) o anudon yr honnir iddo gael ei gyflawni yn ystod ymchwiliad;
- (h) at ddibenion ymchwiliad gyda golwg ar gymryd achosion a nodir ym mharagraff (g);
- (i) at ddibenion achosion o dan adran 20 neu 54 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- (j) yn achos gwybodaeth i'r perwyl bod person yn debygol o fod yn fgygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu fwy o bersonau, i unrhyw berson y mae'r Ombwdsmon o'r farn y dylid ei datgelu er budd y cyhoedd;
- (k) yn achos gwybodaeth y mae is-adran (3) yn gymwys iddi, i'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- (l) at ddibenion swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Benodau 3 a 4 o Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22).

## Deddf Llywodraeth Leol 2000

### Cwynion bod aelodau awdurdod lleol wedi torri eu Cod Ymddygiad neu y gallent fod wedi torri'r Cod Ymddygiad

Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod hwnnw, neu y gallai fod wedi methu â chydymffurfio â hynny. O dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i bob Cyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned, a phob Awdurdod Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân yng Nghymru gael cod ymddygiad y'n nodi sut y dylai eu haelodau etholedig ymddwyn. Rhaid i bob aelod gytuno i gadw at y cod hwn.

Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i fynnu bod unrhyw berson y mae'n credu sy'n gallu darparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau neu dystiolaeth arall at ddibenion ei ymchwiliadau o dan adrannau 61 a 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i cymhwysir yng Nghymru gan adran 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonol) 2006 (OS2006/949).

Mae adran 63(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu na chaniateir datgelu gwybodaeth a geir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan adran 61 neu 62 oni fodlonir un neu ragor o'r amodau canlynol:

- (a) bod y datgeliad yn cael ei wneud at ddibenion galluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu lywydd, dirprwy lywydd neu unrhyw dribiwnlys i Banel Dyfarnu Cymru gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rhan hon,
- (b) bod y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi cydsynio i'w datgelu,
- (c) os yw'r wybodaeth wedi'i datgelu'n flaenorol i'r cyhoedd gydag awdurdod cyfreithlon,
- (d) os yw'r datgeliad at ddibenion achos troseddol mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig ac na chafwyd y wybodaeth o dan sylw o dan adran 62(2),
- (e) bod y datgeliad yn cael ei wneud i'r Comisiwn Archwilio at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn Archwilio neu archwilydd o dan Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998,
- (f) bod y datgeliad yn cael ei wneud i Archwilydd Cyffredinol Cymru at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd o dan Ran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004,
- (g(i)) bod y datgeliad at ddibenion ymchwiliad neu adroddiad ar ymchwiliad o dan Ran 3 neu Ran 5 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019



## SWYDDOGOL


- (g(ii)) bod y datgeliad yn cael ei wneud at ddibenion galluogi swyddog monitro awdurdod perthnasol i gyflawni swyddogaethau a roddwyd iddo gan neu o dan y Rhan hon,
- (h) bod y datgeliad yn cael ei wneud i'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr at ddibenion unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau,
- (i) bod y datgeliad yn cael ei wneud i'r Comisiwn Etholiadol at ddibenion unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau,
- (j) bod y datgeliad yn cael ei wneud i unrhyw berson a bennir mewn gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion y paragraff hwn, at y dibenion a bennir felly.

Os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod achos i'r aelod y mae'n ymchwilio iddo ei ateb neu, ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben, o'r farn bod sail i gyfeirio'r aelod at Banel Dyfarnu Cymru neu bwyllgor safonau, gellir cynnwys unrhyw dystiolaeth a gafwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon a'i ddatgelu i'r aelod a'r corff perthnasol.

Caiff Panel Dyfarnu Cymru a phwyllgorau safonau hefyd ei gwneud yn ofynnol i bersonau roi dystiolaeth neu ddarparu gwybodaeth iddynt yn unol â Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 a Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

## Llofnodion y Cytundeb:

<b>Enw'r Heddlu</b>	
Enw	Steve Cockwell
Swydd	Dirprwy Brif Gwnstabl
Dyddiad	22/03/2024
Llofnod	
Tystiwyd gan	Rhingyll Sarah Evans
Llofnod	

<b>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</b>	
Enw	Michelle Morris
Swydd	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad	20.03.2024
Llofnod	
Tystiwyd gan	Katrin Shaw (Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau)
Llofnod	